Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Fôn Roberts
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad: 18/03/2026

Annwyl Fôn Roberts,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Plant Ynys Môn**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 12 a 16 Ionawr 2026. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran cefnogi, mesur a chynnal gwelliannau i bobl a gwasanaethau.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau isod:

**Pobl – llais a rheolaeth**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y gall plant fynegi eu llais, a'u bod yn cael cynnig gwasanaeth eirioli?
- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gan y gweithlu niferoedd digonol, bod ganddo'r sgiliau perthnasol, ei fod yn brofiadol, a'i fod yn cael ei gefnogi?

**Atal**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle y bo'n ddiogel ac er budd pennaf y plentyn, drwy ddulliau amserol ac ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau?

**Llesiant**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gwaith da yn cael ei wneud i ddadansoddi risg, bod cynlluniau amddiffyn/cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu rhoi ar waith, a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn ôl yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed ac i hybu eu lles?

**Partneriaethau**

- I ba raddau y mae partneriaid yn cydweithio i sicrhau canlyniadau cynaliadwy o ansawdd uchel i blant a theuluoedd?

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn rhoi arweinyddiaeth sefydlog ac yn gyfarwydd iawn â'u gwasanaeth. Mae'r ymarferwyr yn eu disgrifio fel unigolion gweladwy, hawdd mynd atynt a chefnogol iawn.

3.2 Mae'r ymarferwyr yn fedrus, yn arloesol, ac wedi ymrwymo i gefnogi plant a theuluoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn gyson gan yr arweinwyr.

3.3 Mae diwylliant cadarnhaol lle mae her broffesiynol iach yn cael ei hannog. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo proses gyfathrebu ddwy ffordd, a dull drws agored gyda'r gweithlu. Anogir yr ymarferwyr i fod yn arloesol a rhannu eu hawgrymiadau er mwyn gwella gwasanaethau.

3.4 Ceir ffocws cyson ar lesiant yr ymarferwyr. Cefnogir yr ymarferwyr a'r arweinwyr drwy oruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol reolaidd, a gwneir addasiadau angenrheidiol i hyrwyddo anghenion personol a phroffesiynol.

3.5 Gall recriwtio ymarferwyr profiadol fod yn her. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi strategaethau ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

3.6 Ceir ffocws cryf ar fynd ati'n amserol i atal anghenion rhag dwysáu, a hynny wedi'i gefnogi gan waith partneriaeth cryf. Fodd bynnag, mae pobl weithiau'n profi oedi wrth gael cymorth oherwydd capasiti cyfyngedig yr ymarferwyr a'r partneriaid amlasiantaeth.

3.7 Mae'r galw am gymorth gan wasanaethau plant yn parhau i gynyddu, ac mae'r anghenion yn mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae galw cynyddol, gan gynnwys lefelau uwch o weithgarwch yn y llysoedd a gweithgarwch diogelu, yn effeithio ar gapasiti a gwydnwch y gweithlu.

3.8 Mae'r cymorth gwleidyddol a chorfforaethol yn gryf, a dengys arweinydd y cyngor a deiliad y portffolio ddealltwriaeth glir o'r gwaith, y cryfderau a'r heriau ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant.

3.9 Creffir yn fanwl ar berfformiad mewn pwyllgorau a phaneli. Mae gan yr awdurdod lleol fframwaith sicrhau ansawdd hefyd, ond nid yw hwn wedi'i ymgorffori'n llawn yn ymarferol

3.10 Mae'r arferion diogelu yn gadarn ar y cyfan ac yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau allweddol a'n tystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

### Pobl – Llais a Rheolaeth

**Cryfderau**

4.1 Mae lleisiau plant yn gryf, ac roedd tystiolaeth glir o'u profiad bywyd yn y rhan fwyaf o'r cofnodion a welwyd. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio offer, megis y model Tri Thŷ ac Amdanaf i, yn briodol i gefnogi'r broses o gyfathrebu â phlant a'u hannog i fynegi eu barn.

4.2 Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n seiliedig ar gryfderau i hyrwyddo llais ac annibyniaeth plant a'u teuluoedd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r ymarferwyr yn ysgrifennu cofnodion yn uniongyrchol ar gyfer plant yn naratif y person cyntaf. Mae hyn yn sicrhau bod y cofnodion yn hygyrch, yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn ystyrlon os cânt eu cyrchu. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol gan ei fod yn cefnogi'r broses o gadw**

**profiadau, dymuniadau, teimladau a hunaniaeth plant yn ganolog i'r cofnod.**

4.3 Mae'r awdurdod lleol yn elwa ar garfan gref o ymarferwyr Cymraeg. Mae tystiolaeth glir o wasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol plant a theuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn dangos yn gyson y cynigir gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y cofnodion yn adlewyrchu'n gyson p'un a wnaed cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg.**

4.4 Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar eu hymarfer ar draws amrywiaeth o fforymau, gan gynnwys sesiynau myfyriol o fewn y Tîm Teuluoedd Gwydn a sesiynau ymgynghori clinigol wythnosol gyda seicolegydd. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i bob tîm, a gall cynrychiolwyr asiantaethau partner hefyd gymryd rhan. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.5 Mae'r ymarferwyr yn cael budd o sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda ffocws cytbwys ar anghenion plant a theuluoedd a'u llesiant personol eu hunain. O'r 92 o ymarferwyr a gwblhaodd arolwg AGC, roedd y rhan fwyaf (93%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn cael sesiynau goruchwylio yn rheolaidd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr (90%) hefyd fod hyn yn rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion goruchwylio a welwyd yn dangos yn gyson fod ymarfer myfyriol yn digwydd. Mae hyn yn bwysig, gan ei fod yn cefnogi ymarferwyr i ddadansoddi sefyllfaoedd cymhleth, deall effaith ymyriadau, a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Dylid gwneud cysylltiadau clir yng nghofnodion goruchwylio achosion o ran a yw canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer plant a theuluoedd wedi'u cyflawni. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y cofnodion yn adlewyrchu'n gyson bod yr ymarferwyr wedi cael cyfleoedd i fyfyrio ar eu hymarfer mewn sesiynau goruchwylio.**

4.6 Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau o ran recriwtio a chadw ymarferwyr ym maes gwasanaethau plant. Mae'r awdurdod lleol yn lliniaru'r risgiau hyn drwy fentrau a gefnogir yn gorfforaethol ac yn wleidyddol, megis Tyfu Eich Hun. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i symud ymlaen i rolau gweithwyr cymdeithasol cymwys, gan gryfhau prosesau cynllunio olyniaeth, y gallu i gadw staff, a sefydlogrwydd y gwasanaeth i blant a theuluoedd. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.7 Caiff cwynion eu rheoli yn unol â'r canllawiau perthnasol, sy'n cefnogi dull cyson a seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â phryderon yn syth. Mae taflenni cwynion hawdd eu deall ar gael i hyrwyddo dealltwriaeth pobl o'u hawliau. Creffir yn fanwl ar faterion a godir a darperir goruchwyliaeth annibynnol lle bo angen.

**Meysydd i'w Gwella**

4.8 Mae eiriolaeth anffurfiol yn cael ei hyrwyddo'n dda, ond ychydig o dystiolaeth sydd bod eiriolaeth ffurfiol yn cael ei chynnig, ei hailgynnig, neu ei hyrwyddo'n gyson, er gwaethaf ei blaenoriaeth strategol. Mae yna ychydig o enghreifftiau o atgyfeiriadau a wnaed ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth ffurfiol, fodd bynnag, ni chawsant eu gwneud mewn modd amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod eiriolaeth ffurfiol yn cael ei chynnig yn rhagweithiol, ei hailgynnig, a'i darparu mewn modd amserol (lle bo angen).**

4.9 Er bod lleisiau plant yn gryf yn y rhan fwyaf o'r cofnodion, ceir enghreifftiau lle na chaiff lleisiau plant eu cynrychioli'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys cofnodion a wnaed mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhaliwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'n gyson bod lleisiau plant, gan gynnwys eu barn a'u dymuniadau, eu cyflwyniad, a'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau, wedi'u nodi'n glir ym mhob cofnod perthnasol.**

4.10 Ceir enghreifftiau o blant ag anghenion cymhleth yn derbyn gofal gan aelodau o'r teulu a allai hefyd gael eu hystyried yn ofalwyr anffurfiol iddynt. Ceir anghysondeb yn y ffordd y mae ymarferwyr yn cyfeirio at ofalwyr di-dâl posibl. Mae hyn yn cyfyngu ar y broses arferol o gynnig asesiadau gofalwyr, a gallai arwain at beidio â nodi a chefnogi anghenion gofal a chymorth gofalwyr. Bydd asesiadau gofalwyr, pan gânt eu rhoi ar waith yn gyson, yn sicrhau cyfleoedd i gefnogi gofalwyr a hyrwyddo eu llesiant. **Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei broses o gynnig asesiadau gofalwyr ffurfiol er mwyn sicrhau y caiff hawliau a llais pob gofalwr anffurfiol eu hyrwyddo'n llawn.**

**Atal**

**Cryfderau**

4.11 Mae'r arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar gymorth cynnar ac atal anghenion rhag dwysáu. Enghraifft dda o hyn yw'r Hwb Cymorth Cynnar, sy'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos ac yn cynnwys cynrychiolaeth amlasiantaeth eang o asiantaethau partner a gwasanaethau trydydd sector. Mae'r llwybr hwn yn hyrwyddo ymatebion amlasiantaeth amserol a chydlynol sy'n blaenoriaethu atal anghenion rhag dwysáu ac ymyriadau cynnar.

4.12 Yn ogystal â'r Hwb Cymorth Cynnar, mae'r gweithwyr ieuenctid a'r timau addysg a llesiant ategol yn enghreifftiau o drefniadau gweithio integredig, gan ddarparu cymorth wedi'i dargedu a helpu i sicrhau nad oes angen uwchgyfeirio problemau i'r gwasanaethau statudol. Mae'r modelau hyn yn cael eu gwerthuso'n barhaus, ac mae adroddiadau blynyddol ac adborth yn llywio datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

4.13 Mae plant a theuluoedd yn elwa o ymatebion unigol, sy'n gymesur â'u hanghenion a'r risgiau cysylltiedig. Ceir enghreifftiau cyson o ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi diogelwch plant, yn hyrwyddo sefydlogrwydd, ac yn gwella llesiant plant a'u rhieni.

4.14 Mae plant a theuluoedd yn elwa o arferion sydd wedi'u hymsefydlu'n gadarn ac sy'n ystyriol o drawma ym mhob rhan o'r awdurdod lleol, gan gynnwys mewn lleoliadau gofal uniongyrchol ac addysg. Mae un ysgol uwchradd wedi cyflawni statws ystyriol o drawma, sy'n gamp nodedig. Mae'r model yn cael ei rannu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

4.15 Mae'r awdurdod lleol yn parhau i uwchsgilio aelodau ei weithlu i ddod yn ymarferwyr sy'n ystyriol o drawma. Mae hefyd yn cyfrannu at y broses o ddatblygu ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws asiantaethau partner ac yn y gymuned ehangach, gan wneud defnydd effeithiol ac arloesol o hyfforddiant realiti rhithwir.

4.16 Mae pob un o'r timau gwasanaethau plant wedi'u cydleoli, a cheir presenoldeb amlwg yn y swyddfa. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cefnogi hyn ac yn nodi manteision clir o ran cefnogi cyfathrebu amserol, cydweithio, a myfyrio anffurfiol rhwng timau. Anogir yr ymarferwyr i fod yn arloesol ac i rannu eu syniadau eu hunain er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol.

4.17 Mae'r llwybr cyn-geni yn enghraifft o ymarfer ataliol da, gan ei fod yn sicrhau cydlynu cynnar rhwng bydwreigiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adborth barnwrol cadarnhaol yn cadarnhau ei effaith, wrth i fabanod aros yn ddiogel yn eu cartref yn sgil cynllunio a dadansoddi cynnar cadarn. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.18 Nid yw plant a theuluoedd bob amser yn cael gofal a chymorth amserol a phriodol, gan gynnwys gofal seibiant a lleoliadau arbenigol. Mae'r awdurdod lleol yn profi cynnydd parhaus yn y galw am gymorth a gwasanaethau, ac mae anghenion plant a theuluoedd yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae hyn yn rhoi pwysau ar gynaliadwyedd gwasanaethau ataliol, yn enwedig gan fod capasiti asiantaethau partner hefyd wedi'i gyfyngu. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu ymgynghorydd allanol i asesu'r galw, y ddarpariaeth, y cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol cynnar. **Ar ôl i'r adroddiad ddod i law, dylai'r awdurdod lleol fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r agenda ataliol er mwyn sicrhau bod digon o wasanaethau cymorth cynnar ac atal ar gael.**

4.19 Mae'r cynnydd yn y galw am gymorth a gwasanaethau, ynghyd â'r niferoedd cynyddol o blant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gweithlu. Ceir enghreifftiau lle

nad yw camau gweithredu a chyfarfodydd a fwriadwyd i gefnogi canlyniadau plant a theuluoedd wedi'u cwblhau mewn modd amserol. Mae hyn yn arwain at achosion o oedi wrth roi cymorth ac yn creu sefyllfaoedd anwadal i blant a theuluoedd. Nid yw plant a theuluoedd bob amser yn symud yn brydlon i'r tîm gwaith cymdeithasol sydd yn y sefyllfa orau i'w cefnogi, a hynny oherwydd diffyg capasiti. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r gweithlu i sicrhau ei fod yn ddigonol i ddiwallu'r galw presennol a'r galw a ragwelir ac i sicrhau cysondeb wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.**

4.20 Mae'r prosesau cyfathrebu â phlant a theuluoedd, sy'n cynnwys cyn achosion llys ac yn ystod achosion llys, yn amrywiol. Dangosodd canlyniadau arolwg CIW a roddwyd i bobl mai dim ond 9 o'r 20 o ymatebwyr (45%) a oedd yn ei chael hi'n hawdd cysylltu â'r gwasanaethau plant i gael cymorth. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cyfathrebu â phlant a theuluoedd mewn modd cyson ac amserol.**

4.21 Mae safon y cofnodion a'r broses o lanlwytho cofnodion yn amserol i'r system gofal cymdeithasol yn amrywiol, a all rwystro mynediad yr ymarferwyr a'r arweinwyr at wybodaeth gyfredol. Yn arolwg CIW, dywedodd 20 o blith y 92 o ymarferwyr (22%) nad yw'r systemau TG yn gweithio'n dda, gan nodi chwalfeydd, annibynadwyedd, a'r angen i wella. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod safon y cofnodion yn gyson a'u bod yn cael eu lanlwytho'n brydlon.**

4.22 Mae'r tîm diogelu a gwella ansawdd wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar, sydd wedi lleihau ei allu i ymgorffori'r fframwaith sicrhau ansawdd yn llawn. Mae'r gweithgarwch archwilio a dysgu wedi bod yn gyfyngedig ac wedi'i wneud ar wahân, sy'n golygu nad yw arferion yn cyd-fynd â'r fframwaith eto, er bod y newidiadau a wnaed yn anelu at hyrwyddo mwy o gysondeb a dibynadwyedd. Gan fod y cyfrifoldebau archwilio bellach wedi symud o un swydd ddynodedig i gyfrifoldeb ar gyfer y gwasanaeth ehangach, rhagwelir y bydd hyn yn cryfhau gwydnwch ac yn cefnogi'r broses o roi'r fframwaith sicrhau ansawdd ar waith ymhellach. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei fframwaith sicrhau ansawdd, Sicrhau Ansawdd a Gwelliannau o ran Ymarfer, wedi'i wreiddio'n gadarn mewn ymarfer.**

4.23 Nid yw'r canlyniadau a gofnodir mewn asesiadau, cynlluniau a chyfarfodydd bob amser yn CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol). Gall hyn danseilio atebolrwydd, eglurder, a chyfyngu ar effeithiolrwydd y broses o oruchwylio cynnydd. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y canlyniadau bob amser yn CAMPUS er mwyn gallu gwerthuso'n effeithiol a yw cynnydd wedi'i wneud o ran canlyniadau i blant a theuluoedd, a pha mor dda y gwnaed hynny.**

**Llesiant**

**Cryfderau**

4.24 Mae'r arferion diogelu yn gadarn ac yn gyson ar y cyfan â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau a chamau dilynol yn digwydd mewn modd amserol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau o fewn un diwrnod gwaith i dderbyn adroddiad am ddiogelwch posibl plentyn, a chynnal trafodaethau strategaeth o fewn 24 awr i benderfynu bod angen un.

4.25 Mae ymholiadau a gynhelir yn unol ag adran 47 o Weithdrefnau Diogelu Cymru yn gynhwysfawr ac yn cynnwys plant, rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol. Mae ffocws da ar ddiogelu plant wrth i ymholiadau barhau. Ceir dadansoddiad a rhesymeg glir i lywio penderfyniadau ar ôl cwblhau ymholiadau adran 47, gan gynnwys p'un a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed sylweddol neu beidio.

4.26 Ystyrir yn briodol a oes angen cychwyn adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru pan fydd pryderon yn dod i'r amlwg ynghylch unrhyw berson sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys ymarferwyr awdurdodau lleol, ymarferwyr mewn asiantaethau partner a gwirfoddolwyr. Mae hyn yn cryfhau amddiffyniad a llesiant plant a phobl ifanc.

4.27 Ceir cyfranogiad amlasiantaeth da mewn cyfarfodydd strategaeth a gynhelir o dan adrannau 3 a 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n cefnogi dealltwriaeth gynhwysfawr a chywir o risgiau ac anghenion. Cefnogir hyn gan broses rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng partneriaid i sicrhau diogelwch plant.

4.28 Mae'r cofnodion yn dangos tystiolaeth glir o ganlyniadau cyfarfod strategaeth adran 5 a gynhaliwyd yn unol ag adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau pellach ynghylch pa gamau eraill sy'n ofynnol.

4.29 Ceir enghreifftiau da o gynlluniau wrth gefn yn cael eu hystyried rhag ofn na fydd cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson a cheir enghreifftiau lle byddai wedi bod yn fuddiol cael cynllun wrth gefn clir, i hyrwyddo diogelwch plant ymhellach mewn modd amserol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.**

4.30 Ceir enghreifftiau da o ymarferwyr sy'n cyflwyno adroddiadau am bryderon ynghylch diogelwch plant yn cael cadarnhad ysgrifenedig o ganlyniad eu hadroddiadau. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau lle nad yw'r canlyniadau wedi cael eu rhannu'n ysgrifenedig gyda'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. **Dylai'r awdurdod lleol gyfleu canlyniadau adroddiadau i'r plentyn (os yw'n briodol) ac yn ysgrifenedig i riant/gofalwr y plentyn.**

4.31 Mae cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd megis yr Hwb Cymorth Cynnar, Un Drws Ffrynt, y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) a chyfarfodydd partneriaeth cyn geni yn sicrhau bod pob asiantaeth yn ymwybodol o'r risgiau ac yn gallu cydweithio'n effeithiol.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.32 Er bod cyfarfodydd strategaeth yn aml yn cynnwys cyfraniadau amlasiantaeth, cynhelir trafodaethau strategaeth o dan adrannau 3 a 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru rhwng yr awdurdod lleol a'r heddlu yn unig fel arfer. Er bod hyn yn cyd-fynd â'r gofyniad sylfaenol o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ac y gallai fod yn briodol mewn amgylchiadau brys, ceir enghreifftiau clir lle y byddai'n fuddiol cynnwys ymarferwyr eraill, sef y sawl a gyflwynodd yr adroddiad (os yw'n briodol) â'r ymarferwyr sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y trafodaethau cychwynnol mor gadarn a gwybodus ag y gallant fod. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferydd perthnasol, gan gynnwys ymarferwyr o asiantaethau eraill, yn cael eu gwahodd i drafodaethau strategaeth lle mae'r amgylchiadau'n caniatáu.**

4.33 Er gwaethaf enghreifftiau o gamau gweithredu a phenderfyniadau amserol o dan adrannau 3 a 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru, mae rhai enghreifftiau lle nad ydynt yn amserol, gan gynnwys cyfarfodydd adolygu cyfraith gyhoeddus nad ydynt yn cydymffurfio'n gyson â'r disgwyliadau o ran arferion gorau. Gall anghysondebau o'r fath arwain at blant yn wynebu perygl hirfaith o niwed ac achosi oedi i gynllunio hanfodol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y penderfyniadau a'r camau gweithredu a wneir, bob amser yn amserol ac yn unol â gweithdrefnau perthnasol.**

4.34 Er gwaethaf enghreifftiau o asiantaethau partner yn rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch plant yn brydlon i'r awdurdod lleol, mae'r ymarfer yn amrywiol. Nodwyd achosion o oedi a gwybodaeth annigonol mewn adroddiadau gan ysgolion. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr ymarferwyr ar ddyletswydd wrth iddynt orfod chwilio am ragor o wybodaeth, ac mae'n peri risg o oedi cyn cymryd camau diogelu. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi camau cadarnhaol i fynd i'r afael â hyn. Mae sesiynau wedi'u cynnal ag asiantaethau partner ac asiantaethau'r trydydd sector i drafod pryd mae atgyfeiriadau'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer camau gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a'r hyn y disgwylir iddo gael ei gynnwys yn yr adroddiadau. **Er mwyn cefnogi prosesau diogelu plant amserol ymhellach, dylai'r awdurdod lleol ystyried cynnal mwy o fforymau rheolaidd â rhanddeiliaid.** Byddai hyn yn hwyluso dealltwriaeth bellach o'r gofynion cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gwahanol, ac yn sicrhau bod adroddiadau bob amser yn cynnwys y manylion perthnasol.

4.35 Ceir ychydig o enghreifftiau lle nad yw'r cofnodion yn dangos tystiolaeth o ba gymorth, gwybodaeth a chyngor lles a ddarparwyd i oedolion sydd mewn

swyddi cyfrifol ac sy'n destun pryderon/honiadau yn unol ag Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cofnodion yn egluro bob amser pa gymorth, gwybodaeth a chyngor a ddarperir, a chan bwy, i oedolion y bernir eu bod mewn swyddi cyfrifol ac sy'n destun pryderon/honiadau.**

**Partneriaethau ac Integreiddio**

**<u>Cryfderau</u>**

4.36 Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn parhau i ddatblygu partneriaethau cryf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a hynny mewn modd strategol a gweithredol.

4.37 Ceir cydberthnasau cryf ar draws adrannau gwahanol yn yr awdurdod lleol, sydd wedi cefnogi rhaglenni cyfalaf yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw darpariaeth gofal newydd yr awdurdod lleol ei hun ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, sef Cartrefi Clyd. Mae cynlluniau clir ar gyfer datblygu rhagor o gartrefi gofal plant mewnol. Mae plant a theuluoedd yn elwa gan fod plant yn cael gofal yn lleol, lle mae eu hanghenion cymdeithasol, iechyd, addysgol ac ieithyddol yn cael eu diwallu.

4.38 Mae'r arweinwyr yn cyfrannu at waith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cyfranogiad yr awdurdod lleol yn sicrhau bod ei lais yn cael ei hyrwyddo wrth lywio sut mae datblygiadau a chyfrifoldebau rhanbarthol yn esblygu. Yn yr un modd, mae'r fforymau'n galluogi'r awdurdod lleol i elwa o gyfleoedd dysgu a hyfforddi trawsasiantaethol, sy'n gwella arferion lleol a gallu'r gweithlu.

4.39 Mae'r awdurdod lleol, awdurdod lleol cyfagos a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi comisiynu gwerthusiad gan ymgynghorydd annibynnol o'r gwasanaeth a ddarperir i blant anabl. Diben hyn yw nodi cryfderau, heriau, risgiau a chynaliadwyedd y gwasanaeth ac ysgogi gwelliannau o ran y gwasanaethau a ddarperir. **Ar ôl i'r adroddiad ddod i law, dylai'r awdurdod lleol fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.40 Gall integreiddio â phartneriaid iechyd fod yn heriol oherwydd gwahaniaethau mewn cyflymder a systemau gweithredu. Gall hyn oedi datblygiadau i wasanaethau a'r broses o roi mentrau newydd ar waith. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn wella canlyniadau ymhellach i blant a theuluoedd.**

4.41 Er gwaethaf llwyddiant Cartrefi Clyd, mae'r gwasanaeth yn parhau i wynebu heriau o ran sicrhau lleoliadau priodol i blant ag anghenion cymhleth, pobl ifanc

yn eu harddegau a phlant ag anghenion iechyd ychwanegol. Mae'r farchnad ar gyfer lleoliadau yn gyfyngedig a gall fod yn gostus, ac mae bylchau ar gyfer plant nad ydynt yn bodloni meini prawf caeth y gwasanaethau presennol. Mae hyn yn cyfrannu at y sefyllfa lle mae'r awdurdod lleol yn darparu llety i nifer bach o blant mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion i sicrhau amrywiaeth o lety addas yn ei ardal i ddiwallu anghenion y plant y mae'n gofalu amdanynt.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 25 o blant a theuluoedd drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 22 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain tri.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn neu'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill. O ran yr achosion a gafodd eu holrhain ac a ddewiswyd ar hap, gwnaethom ymgysylltu ag un aelod o'r teulu drwy gyfweliad. Cynigiwyd cyfle i aelodau eraill o'r teulu gymryd rhan ond gwnaethant wrthod, neu aseswyd nad oedd cyfweliad yn briodol oherwydd amgylchiadau'r plentyn, natur cyfranogiad y gwasanaethau plant, a/neu am nad oedd y rhieni neu'r gofalwyr wedi cydsynio i'w plant gael eu cyfweld.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 43 o gyflogeion yr awdurdod lleol (roedd hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithwyr cymdeithasol, arweinwyr ymarfer, rheolwyr gwasanaethau, arweinydd y cyngor a deiliad portffolio).
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Derbyniwyd y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y gwiriad sicrwydd hwn.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r ymarferwyr, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn profi llesiant ym mhob rhan o'u bywyd. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach yn unig. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |